

**Adroddiad Blynyddol ar y
Gymraeg yn Estyn
2019-2020**

Mae'r wythfed adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys crynodeb o gynnydd a wnaed rhwng Mawrth 2019 ac Ebrill 2020 yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad y llynedd.

Blaenoriaethau ar gyfer 2019-20

- 1. Parhau â phroses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid, a'i datblygu ymhellach o fewn timau gwahanol er mwyn dadansoddi i ba raddau rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut y gallem wella ein perfformiad a'n gwasanaethau Cymraeg.**
- 2. Cyfrannu at ddatblygiadau i gynhyrchu 'goslef llais' neu gywair corfforaethol i Estyn a sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r datblygiad hwn.**
- 3. Parhau i roi cyfleoedd i AEM perthnasol gysgodi arolygiadau cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer yr arolygwyr sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg. Sicrhau bod staff corfforaethol sy'n dysgu Cymraeg yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau iaith yn y gweithle.**
- 4. Nodi cyfleoedd sy'n gwella ein perfformiad a'n hymddangosiad fel sefydliad dwyieithog. Er enghraifft, cynhyrchu laniardiau sy'n ymgorffori'r logo iaith Gwaith a brandio Estyn.**

Cyflwyniad

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran y blaenoriaethau uchod yn ystod y flwyddyn, a bwriad yr adroddiad hwn yw adlewyrchu ac enghreifftio'r cynnydd hwnnw.

Mae hefyd yn werth nodi bod safonau'r Gymraeg wedi bod yn ysgogiad pwysig wrth ein galluogi i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

Dangoswyd hyn yn ein hymateb i bandemig COVID-19. Er y bu'n rhaid cau'r swyddfa ar ddiwedd y cyfnod adrodd, fe wnaethom barhau i ymgysylltu'n ddwyieithog, yn allanol ac yn fewnol, yn ôl yr arfer. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu cwbl ddwyieithog trwy gyfryngau cymdeithasol, ac ailgyfeirio ein switsfwrdd ffôn i staff perthnasol yn gweithio o gartref i sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaeth ffôn dwyieithog.

1. Parhau â phroses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid, a'i datblygu ymhellach o fewn timau gwahanol er mwyn dadansoddi i ba raddau rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut y gallem wella ein perfformiad a'n gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r broses hon yn cynnwys gofyn i aelod o'r tîm perthnasol yn y gwasanaethau corfforaethol drafod â chydweithwyr a pharatoi dadansoddiad byr o'r ffordd y maent yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn ystod cyfarfod y Gweithgor Iaith Gymraeg, caiff y safonau sy'n berthnasol i'r tîm corfforaethol hwnnw eu dangos ar y sgrin ac mae'r unigolyn yn siarad amdanynt, gan esbonio sut maent yn dehongli'r safon yn eu cyd-destun nhw. Mae hyn yn arwain at gwestiynau ac awgrymiadau gan aelodau eraill y grŵp, sy'n helpu i ddatrys unrhyw faterion lletchwith yn ogystal â mireinio'n dealltwriaeth gyfunol o ofynion y safonau. Os bydd angen, gofynnir i gynrychiolwyr y tîm ystyried materion a godwyd, a dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar ôl eu trafod â chydweithwyr yn yr un tîm. Mae'r broses hon wedi bod yn fuddiol i bawb sydd ynghlwm, ac arweiniodd at broses effeithiol o adolygu gan gymheiriaid, gan arwain at hunanwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r safonau.

Mae'r broses hon yn eitem sefydlog yn ein cyfarfodydd tymhorol.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, fe wnaethom ganolbwyntio ar un tîm, sef y Gwasanaethau Adnabyddiaeth a Gwybodaeth. Rhoddwyd blaenoriaeth i waith y grŵp hwn wrth uwchraddio ein system Sharepoint yn ystod y flwyddyn. Defnyddir y system hon gan bob un o'n staff i storio a chyfleu gwybodaeth. Cynhelir arolygiadau gan ddefnyddio platfformau rhithwir hefyd. Mae Sharepoint yn hanfodol i'n busnes yn fewnol ac yn allanol, a chyfeirir ato o dan nifer o Safonau'r Gymraeg, er enghraifft y rhai sy'n delio â chyfryngau electronig. Mynychodd aelodau perthnasol o dîm Sharepoint gyfarfodydd i hysbysu'r gweithgor am gynnydd, a sicrhau y byddai'r system newydd yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Y waelodlin gytûn oedd bod rhaid i'r system newydd fod yn gyfartal â'r system flaenorol, o leiaf, o ran cynnwys y Gymraeg, a'r nod oedd gwella arni. Cyflawnwyd hyn ac mae cynnwys ac ymarferoldeb y Gymraeg wedi gwella. Yn ystod y broses hon, fe wnaethom ymgysylltu â'r adran gydymffurfio yn Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn cadw at ddeddfwriaeth a gwneud gwelliannau, lle bu modd.

Yn dilyn y broses hon, dywedodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wrthym y byddent yn cynnwys ein proses hunanasesu ac asesu cymheiriaid fel enghraifft o arfer effeithiol mewn canllawiau i'w cyhoeddi.

2. Cyfrannu at ddatblygiadau i gynhyrchu 'goslef llais' neu gywair corfforaethol i Estyn a sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r datblygiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, lluniodd Estyn ganllawiau 'goslef llais' manwl ar gyfer staff. Cyfrannodd y Gweithgor Iaith Gymraeg yn ystyrion at drafodaethau ynglŷn â'r ddogfen hon, a sut byddai'n cael ei chymhwyso yn y Gymraeg. Mae fersiynau dwyieithog o'r canllawiau hyn ar gael i staff, ac yn y fersiwn Gymraeg, mae adran ychwanegol ar sut i ddefnyddio gwahanol ffurfiau'r ail berson, h.y. 'ti / chi', yn briodol yn Gymraeg, o ystyried y gwahaniaethau gramadegol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

3. Parhau i roi cyfleoedd i AEM perthnasol gysgodi arolygiadau cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer yr arolygwyr sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg. Sicrhau bod staff corfforaethol sy'n dysgu Cymraeg yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau iaith yn y gweithle.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mynychodd nifer o staff wersi Cymraeg naill ai yn y swyddfa neu drwy fynychu cyrsiau allanol. Fodd bynnag, er bod niferoedd y staff yr un fath ag yr oeddent yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol, roedd nifer yr oriau / y diwrnodau yn is. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y cyrsiau preswyl a fynychwyd. Yn ystod mis olaf y cyfnod adrodd, roedd pandemig COVID-19 yn golygu bod dosbarthiadau wyneb yn wyneb wedi dod i ben o ganlyniad i gau'r swyddfa. Fodd bynnag, ymatebodd y sector Cymraeg i oedolion yn gyflym i'r sefyllfa, a throsglwyddo'r rhan fwyaf o'i ddarpariaeth i ddysgu o bell neu ddysgu ar-lein. Cafodd staff Estyn ddiweddariadau rheolaidd ar y dulliau darpariaeth newydd hyn, ac fe gawsant eu hannog i barhau â dysgu Cymraeg, neu ddechrau dysgu Cymraeg, yn ystod y cyfnod clo.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Gweithgor Iaith Gymraeg yn trafod yn helaeth sut orau i sicrhau bod staff corfforaethol yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau Cymraeg yn y gweithle. O ganlyniad, byddwn yn dod yn rhan o brosiect treialu, mewn partneriaeth â Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, i gyflwyno pecyn cymorth wedi'i anelu at gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg o fewn y sefydliad. Bydd hyn yn ffurfio un o'n prif nodau ar gyfer 2020 – 21.

4. Nodi cyfleoedd sy'n gwella ein perfformiad a'n hymddangosiad fel sefydliad dwyieithog. Er enghraifft, cynhyrchu laniardiau sy'n ymgorffori'r logo iaith Gwaith a brandio Estyn.

Bu datblygiadau cadarnhaol o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar system newydd Sharepoint (gweler Nod 1 uchod).

Yn ychwanegol, fe wnaethom gynhyrchu laniardiau teilwredig Estyn am y tro cyntaf, sy'n nodi siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr Cymraeg. Caiff y rhain eu defnyddio'n eang erbyn hyn gan staff arolygu a staff corfforaethol perthnasol, ac maent wedi cael ymateb cadarnhaol yn allanol. O ganlyniad, gall sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau partner adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn hawdd.

Cadw cofnodion

Yn unol â'r flwyddyn ariannol, rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (p'un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau y mae gennym ni ddyletswydd i gydymffurfio â nhw ai peidio). Yn ystod 2019-20, ni dderbyniwyd unrhyw gŵynion am ein gwasanaethau iaith Gymraeg.

Rydym yn monitro'n agos ansawdd ein gwasanaethau iaith Gymraeg, ac yn cadw cofnod o'r hyn rydym ni'n ei wneud i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi. Rydym yn cadw cofnod (yn dilyn asesiadau o fedrau Cymraeg), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar fedrau yn y Gymraeg (gweler atodiadau 1 a 2 isod). Rydym yn cadw cofnod yn ogystal o nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu gyrsiau ymwybyddiaeth iaith (gweler atodiad 5 isod).

Rydym yn cadw cofnod o nifer y swyddi gwag yr aseswyd bod medrau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn angenrheidiol neu y mae angen dysgu Cymraeg ar eu cyfer.

Cynhaliwyd dwy ymgyrch recriwtio yn ystod 2019-20.

- Swyddog Gweinyddol – medrau Cymraeg yn hanfodol
- Cydlynnydd Arolygu - medrau Cymraeg yn hanfodol
- Gohiriwyd recriwtio AEM newydd o ganlyniad i COVID-19

Blaenoriaethau ar gyfer 2020-21

- 1. Parhau â phroses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid, a'i datblygu ymhellach trwy ddatblygu mwy o gyfrifoldeb unigol o fewn timau, ac ar draws timau, er mwyn dadansoddi i ba raddau rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut y gallem wella ein perfformiad a'n gwasanaethau.**
- 2. Rhoi pecyn cymorth ARFer ar waith o Dymor yr Hydref 2020 ymlaen er mwyn defnyddio medrau Cymraeg y rhai sy'n siarad Cymraeg yn rhugl a dysgwyr o fewn y sefydliad, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. (Gweler atodiad 8 am ddiffiniad o brosiect ARFer).**
- 3. Nodi cyfleoedd sy'n gwella'n perfformiad a'n hymddangosiad fel sefydliad dwyieithog. Er enghraifft, ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg sydd ar gael yn Gymraeg, a sut gallai wella ein defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol.**

Atodiadau


Atodiad 1: Nifer a chanran y staff yng ngwasanaethau'r sefydliad sy'n medru'r Gymraeg ar 31 Mawrth 2020 (cyfwerth ag amser llawn)

- Fesul adran
- Yn ôl gradd y swydd

Staff	Nifer y staff Ar 31/03/2020	Nifer y siaradwyr Cymraeg Ar 31/03/2020	Canran
PAEM	1	1	100%
Cyfarwyddwyr Strategol	2	1	50%
Staff arolygu			
Cyfarwyddwyr Cynorthwyol	6	4	67%
AEM	57	20	35%
Arolygwyr Ychwanegol (secondiadau)	2	1	50%
Cyfanswm y staff arolygu	65	25	38%
Staff corfforaethol			
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	1	0	0%
Gradd 7	3	2	67%
Uwch Swyddogion Gweithredol	2	0	0%
Swyddogion Gweithredol Uwch	6	2	33%
Swyddogion Gweithredol	20	5	25%
Swyddogion Gweinyddol	12	2	17%
Cyfanswm	44	11	25%
Cyfanswm staff Estyn	112	38	34% (35% yn 18/19)

Atodiad 2: Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o'r holl staff arolygu (cyfwerth ag amser llawn)

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2018	1 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020
Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg	22	25	25	5
Cyfanswm staff arolygu	64	60	64	65
Canran	34%	42%	39%	38%



Atodiad 3: Nifer yr arolygwyr cymheiriaid yn ôl cyfrwng 2019/20

	Cymraeg a Saesneg	Saesneg yn unig
Dysgu oedolion yn y gymuned	0	10
Ysgolion pob oed	13	7
Addysg bellach	15	97
Annibynnol prif ffrwd	0	25
Annibynnol Arbennig (gan gynnwys Colegau)	2	26
Awdurdodau Lleol	9	12
Arbennig a gynhelir	3	16
Cynradd	101	243
Unedau cyfeirio disgyblion	0	6
Uwchradd	42	122
Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	0	4
Dysgu yn y gwaith	2	20
Cymraeg i oedolion	19	0
Sefydliadau Troseddau Ieuenctid / Carchardai	0	4
Cyfanswm	206 (34%) 32% yn 2018/19	592

Atodiad 4: Hyfforddiant iaith Gymraeg 2019-2020

Math	Nifer y staff	Darparwr	Lleoliad	Diwrnodau
Cyrsiau mewnol a gynhaliwyd yn y swyddfa				
Mynediad	5	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Llys Angor	25
Canolradd	5	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Llys Angor	25
Cyrsiau allanol				
Canolradd 1 a 2 (Dysgu Cyfunol)	1	Prifysgol Caerdydd	Caerdydd	1
Cymraeg Canolradd Rhan 1	1	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Pentre'r Eglwys	1
Cwrs Gŵyl Fai (Sylfaen)	1	Dysgu Cymraeg Caerdydd	Caerdydd	2
Cwrs Uwch - Cymraeg	1	Dysgu Cymraeg Y Fro	Bro Morgannwg	7.5
Cwrs Sylfaen Rhan 1 a 2 (Cyfunol)	1	Prifysgol Caerdydd	Caerdydd	7.5
Cymraeg i ddechreuwr	1	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Caerdydd	3

Cyfanswm: 16 aelod o staff a 72 diwrnod
(16 aelod o staff a 110.5 diwrnod yn 2018-19)

Atodiad 5: Nifer y staff a dderbyniodd hyfforddiant sefydlu iaith Gymraeg a hyfforddiant penodol trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r holl staff, gan gynnwys staff dros dro neu staff asiantaeth, yn derbyn hyfforddiant sefydlu ymwybyddiaeth iaith Gymraeg fel rhan o'u rhaglen sefydlu gan yr AEM sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Caiff hyn ei amserlennu gan yr adran adnoddau dynol fel rhan o raglen sefydlu staff newydd. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth fras am hanes yr iaith a'i lle yn hanes Cymru, dealltwriaeth o ofynion Safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.


Yn ystod 2019-20, ymunodd 22 aelod newydd o staff ag Estyn mewn swyddi gwahanol. (12 aelod o staff arolygu a 10 aelod o staff corfforaethol).

Atodiad 6: Dadansoddi sut mae hyfforddiant allanol/ymgysylltu â rhanddeiliaid yn bodloni gofynion iaith Gymraeg cynrychiolwyr

Ymatebodd cyfanswm o 1,130 o gynrychiolwyr: teimlai 1,105 (98%) fod y digwyddiad y gwnaethant ei fynychu wedi bodloni'u hanghenion iaith, sy'n uwch na ffigur y llynedd, sef 97%. Teimlai 25 (2%) ohonynt na fodlonwyd eu hanghenion iaith.

O'r 25 cynrychiolydd a atebodd 'na' i'r cwestiwn hwn, ni roddodd 7 unrhyw gyd-destun i'w hateb. Soniodd y cynrychiolwyr a roddodd gyd-destun am y canlynol:

- ni ddarparwyd cyfieithydd ar y pryd, a dylai un fod wedi bod yn bresennol – 7 sylw
- problemau technegol â'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd – 5 sylw¹
- nid oedd AEM sy'n medru'r Gymraeg a oedd yn bresennol yn siarad digon o Gymraeg – 4 sylw
- byddai'n well gan y cynrychiolydd fod wedi cael yr hyfforddiant yn Gymraeg, ond doedd dim digon o siaradwyr Cymraeg wedi cofrestru - 1 sylw



Daeth y sylwadau am ddiffyg cyfieithu ar y pryd gan gynrychiolwyr mewn fforymau rhanddeiliaid. Mae galw cynyddol am y gwasanaeth hwn yn ein fforymau, ac rydym ni'n awgrymu i AEM arweiniol y dylem ni ddarparu'r gwasanaeth bob tro rydym yn cynnal y digwyddiadau hyn.

■ Bodlonwyd anghenion iaith ■ Ni fodlonwyd anghenion iaith

¹ Yn anffodus, ni wnaeth y cynrychiolwyr hyn roi gwybod i ni am y problemau hyn ar ddiwrnod y digwyddiad.

Atodiad 7: Ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Estyn yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r siartiau isod yn dangos y ganran sy'n gweld negeseuon yn Saesneg (EstynHMI) ac yn Gymraeg (EstynAEM).

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 19% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.


Fodd bynnag, yn yr arolwg o'r Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru 2013-15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 26 Tachwedd 2015), dangosodd y ffigurau fod 18% o'r holl siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio Facebook yn defnyddio'r Gymraeg, a bod 12% o'r holl siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio Twitter yn defnyddio'r Gymraeg.

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/English/Publications%20List/Adroddiad%20-%20Y%20defnydd%20o'r%20Gymraeg%20yng%20Nghymru,%202013-15%20-%20Saesneg.pdf>

Mae'r ffigurau isod yn dangos bod lefelau ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol Estyn yn uwch nag y byddai ffigurau 2013-15 yn awgrymu, ac mae lefelau ymgysylltu yn Gymraeg ar Facebook yn sylweddol uwch.

Mae'r argraffiadau yn cynrychioli safbwyntiau ar ffrwd Twitter.

Argraffiadau Twitter




■ Argraffiadau EstynHMI

■ Argraffiadau EstynAEM

Mae cyrhaeddiad Facebook yn cynrychioli nifer y troeon yr edrychwyd ar dudalen Facebook Estyn.

Cyrhaeddiad Facebook



Atodiad 8: Diffiniad o brosiect ARFer

Mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu prosiect ARFer sy'n anelu at sicrhau dealltwriaeth well o ddefnydd iaith ymhlith cydweithwyr er mwyn cyflwyno ymyriadau a chymorth teilwredig i annog defnydd o'r Gymraeg mewn gweithle dwyieithog.

ARFer

Mae rhaglen ARFer yn fethodoleg a ysbrydolwyd gan brosiect Aldahitz wedi'i ddylunio gan Soziolinguistika Klusterra yng Ngwlad y Basg. Mae'r prosiect wedi'i seilio ar ddwy egwyddor sydd wedi'u gwreiddio yn y gwyddorau ymddygiadol, sef:

- ymrwymo i ymddwyn mewn ffordd benodol
- elwa ar y dylanwad sylweddol y gall diffygion ei gael ar ymddygiad pobl

Yn ei hanfod, mae ARFer yn rhaglen sy'n gofyn i unigolion ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg fel yr iaith arferol gyda'r nod o sefydlu'r Gymraeg fel y norm.

Mae'r ffactorau canlynol yn allweddol i lwyddiant y cynllun:

- buddsoddi mewn rhaglen sy'n cefnogi dymuniad staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- pwysigrwydd creu cyd-destun sy'n galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- pwysigrwydd cynorthwyo siaradwyr Cymraeg (yn ogystal â dysgwyr) i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- pwysigrwydd deall patrymau defnydd iaith cyn gwneud unrhyw gynnig i ddylanwadu arnynt.